

**Iechyd a Diogelwch a Gwyddoniaeth**

**Taflen Wybodaeth ar gyfer**

**Llywodraethwyr a Phenaethiaid mewn Ysgolion Uwchradd a Cholegau**

**Cyhoeddwyd gan**

**Gymdeithas dros Addysg Gwyddoniaeth**

Y gymdeithas broffesiynol ar gyfer athrawon a thechnegwyr i gyd



2011

## **Iechyd a Diogelwch mewn labordai gwyddoniaeth**

### **Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion a Cholegau**

Mewn ysgolion cymunedol, ysgolion cymunedol arbennig ac ysgolion gwirfoddol dan gymorth, ac mewn ysgolion meithrin a reolir gan awdurdodau lleol, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr. Ym mhob ysgol a choleg arall, y llywodraethwyr yw'r cyflogwr ac o dan *Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb* mae ganddynt gyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles y gweithwyr (ee athrawon a thechnegwyr) ac eraill a gaiff eu heffeithio (ee disgyblion, rhieni ac ymwelwyr) gan eu gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd. Hyd yn oed pan fo'r awdurdod lleol, fel y cyflogwr, yn cael cyfrifoldeb, mae'n debygol ei fod wedi dirprwyo o leiaf rhan o'i swyddogaeth fonitro i'r pennaeth a'r llywodraethwyr. Dylai'r polisi iechyd a diogelwch sydd gan yr awdurdod lleol wneud y swyddogaeth hon yn glir.

Mae gan lywodraethwyr swyddogaeth strategol ynghylch iechyd a diogelwch yr ysgol ac ni ddisgwylir iddynt ymgymryd â rheolaeth iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd; dyna rôl uwch tîm rheoli'r ysgol. Swyddogaeth y llywodraethwyr yw gosod polisi'r ysgol, monitro bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cael eu gweithredu a sicrhau bod yr ysgol yn gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol er iechyd a diogelwch gweithwyr, disgyblion ac eraill a effeithir gan yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Ni all y cyflogwr gyflawni ei ddyletswydd statudol oni bai ei fod yn monitro sut y mae'r ysgol(ion) yn cydymffurfio â'i bolisi. Rhaid i'r cyflogwr ddarparu

canllawiau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg i'r aelodau hynny o staff yr ysgol y mae tasgau iechyd a diogelwch wedi eu dirprwyo iddynt ee arweinwyr pwnc a phenaethiaid adran.

Os mai'r corff llywodraethu yw'r cyflogwr, mae'n annhebygol y bydd ganddo'r cymhwysedd a'r arbenigedd angenrheidiol i gynhyrchu canllawiau ac asesiadau risg ar gyfer meysydd arbenigol megis gwyddoniaeth.

Yn y sefyllfa hon, gall Cymdeithas dros Addysg Gwyddoniaeth (ASE) a'i gydweithwyr CLEAPSS, neu SSERC yn yr Alban (gweler y dudalen gefn), gefnogi ysgolion yn sylweddol trwy gynnig asesiadau risg a chanllawiau wedi eu cynhyrchu ar gyfer gwyddoniaeth.

### **Cwestiynau y gallai'r Llywodraethwyr eu gofyn**

Bwriad y rhestr gyfeirio isod yw helpu Llywodraethwyr a rheolwyr eraill i fonitro'r hyn sy'n digwydd mewn adrannau gwyddoniaeth yn eu hysgolion. Ni all rhestr mor fer â hyn fod yn gynhwysfawr ac yn aml bydd rhesymau call pam na all rhai agweddau ar ymarfer da gael eu gweithredu mewn sefyllfa benodol. Mae ASE, CLEAPSS ac (yn yr Alban) SSERC i gyd yn barod i gynghori eu haelodau pan fo amheuan yn codi. Cynhyrchwyd rhestr gyfeirio fwy manwl ar gyfer cyfnodolyn yr ASE, *School Science Review*, ym mis Mehefin 1995 - *How safe is your science department? A checklist for managers.*

**Monitro deddfwriaeth newydd:** Mewn ysgolion nas cynhelir gan awdurdod lleol, pwy sy'n gyfrifol am gadw golwg ar oblygiadau deddfwriaeth newydd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch?

**Polisi Iechyd a Diogelwch:** A yw'r llywodraethwyr neu'r awdurdod lleol yn mynnu bod gan yr adran wyddoniaeth ei pholisi ei hunan yn ymwneud ag iechyd a diogelwch? Os felly, a yw'r polisi'n gyfredol a phriodol?

**Swyddogaethau unigolion penodol:** A oes gan unigolion a enwir swyddogaethau ar gyfer iechyd a diogelwch yn ymwneud â chysiau penodol, ar gyfer anwytho staff newydd, ayyb?

**Anwytho Iechyd & Diogelwch:** A oes gan yr adran ddull clir o gyflwyno rheolau sylfaenol i staff newydd, gan gynnwys staff cefnogi, ynghylch iechyd a diogelwch, cynlluniau argyfwng a gweithdrefnau gwacáu mewn achos o dân?

**Canllawiau, Hyfforddi a Chyfathrebu ar gyfer Iechyd a Diogelwch:** A oes rheolau priodol i ddisgyblion a chanllawiau a hyfforddi addas i staff? A oes modd effeithiol o gyfathrebu gwybodaeth ynghylch iechyd a diogelwch a'i dosbarthu? A yw pennaeth yr adran wedi cael hyfforddiant ynghylch rheoli iechyd a diogelwch? Pa broses anwytho sy'n cael ei ddarparu ar gyfer athrawon newydd, technegwyr a Chynorthwywyr Dysgu?

**Rheolau'r Cyflogwr neu Godau Ymarfer:** Os oes gofyn gan y cyflogwr, oes Rheolau Lleol / Codau Ymarfer a adwaenir gan yr holl staff? A yw'r Rheolau / Codau Ymarfer yn cael eu dilyn?

**Sylweddau Ymbelydrol ac Ymbelydredd Ïoneiddio:** A oes athro penodol sy'n gyfrifol dros waith yn ymwneud ag ymbelydredd ac a yw'r cyflogwr wedi penodi Ymgynghorydd ar gyfer Amddiffyn rhag Ymbelydredd? A yw'r gofynion cyfreithiol, megis profion gollwng, yn cael eu bodloni'n llawn?

**Asesiadau Risg:** A yw asesiadau risg ar gael ar gyfer gwaith ymarferol mewn gwyddoniaeth (megis y rhai a gynhrychir gan ASE, CLEAPSS neu SSERC)? A oes cyfeiriadau atynt mewn cynlluniau gwaith ac a yw'r staff yn eu defnyddio wrth iddynt gynllunio a pharatoi gwersi?

**Gweithdrefnau argyfwng:** A oes gweithdrefnau ar gyfer Mesurau Adfer Uniongyrchol a mathau eraill o argyfwng, megis tân, codymau, sblashis cemegol yn y llygaid ayyb? A all y gweithdrefnau gael eu deall yn glir?

**Coflyfr neu Ffeil ar gyfer Profion Iechyd a Diogelwch:** A oes gan yr adran wyddoniaeth ffeil neu goflyfr, sydd yn cofnodi pryd y gwnaethpwyd gwiriadau neu brofion amrywiol, gan bwy a chyda pa ganlyniad?

**Cypyrddau Gwyntyllu, Systemau Gwasgedd ac Offer Trydanol Cludadwy:** A yw'r gwirio neu brofi cypyrddau gwyntyllu, llestri gwasgedd ac offer trydanol cludadwy (os fe'i dirprwyir i'r adran wyddoniaeth) yn digwydd yn unol â

gofynion y Rheoliadau perthnasol?

**Diffoddwyr tân a Larymau:** A oes diffoddwyr addas yn y labordai ac yn yr ystafelloedd paratoi? A ydynt yn cael eu gwirio'n flynyddol ac a yw'r staff yn gwybod sut i'w defnyddio?

**Cemegion:** A yw cemegion yn cael eu stampio â'r dyddiad wrth iddynt gyrraedd ac yn cael eu labelu'n glir? A yw cyflwr y cemegion yn cael ei wirio'n gyson os ydynt yn tueddu i ddirywio?

**Rheoli Gwastraff:** A oes mesurau i leihau gwastraff i'r lleiafswm? A yw'r gwastraff yn cael ei waredu mewn ffordd gyfrifol a chyfreithlon?

**Cyfarpar amddiffynnol personol a chyfarpar diogelwch arall:** A oes cyfarpar amddiffynnol, gan gynnwys cyfarpar ar gyfer amddiffyn y llygaid, ar gael yn hwylus? A yw'r cyfarpar mewn cyflwr da? A yw'n cael ei ddefnyddio pa bryd bynnag y mae'n gofyn iddo yn ôl yr asesiad risg?

**Cyflwr y labordai, ayyb:** A yw cyflwr a diogelwch yr ystafelloedd ar gyfer gwyddoniaeth (gan gynnwys, os yn briodol, arwyddion diogelwch) yn cael eu gwirio'n gyson ac yn drefnus.

**Archwilio Iechyd & Diogelwch yn allanol:** Gallai fod yn ddymunol cynnal archwiliad diogelwch gan rywun y tu allan i'r ysgol; a ydy hyn wedi digwydd ac, os felly, a ydy'r argymhellion wedi cael eu gweithredu?

## **Cymdeithas dros Addysg Gwyddoniaeth**

Mae gan Gymdeithas dros Addysg Gwyddoniaeth (ASE) tua 11,000 o aelodau, sydd gan amlaf yn athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig a cholegau. Yn ogystal, mae'r aelodaeth yn cynnwys technegwyr, ymgynghorwyr addysg, darlithwyr mewn prifysgolion a chynrychiolwyr diwydiant. Mae'n cyhoeddi sawl cyfnodolyn adnabyddus, gan gynnwys *Education in Science, Primary Science, School Science Review* a *Science Teacher Education*.

Trwy ei grŵp Iechyd a Diogelwch, mae'r Gymdeithas yn cynghori ei haelodau ar faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Gallai hyn gynnwys gohebiaeth bersonol ac erthyglau cyson yng nghyfnodolion y Gymdeithas, yn ogystal â sawl cyhoeddiad ynghylch iechyd a diogelwch, gan gynnwys:

- *Safeguards in the School Laboratory* (11eg argraffiad, 2006)
- *Topics in Safety* (3ydd argraffiad, 2001)
- *Safety Reprints (2005)*
- *Safe and Exciting Science, An INSET Pack* (2il argraffiad, 2009)

Ar gyfer ysgolion cynradd, mae'r Gymdeithas wedi cyhoeddi:

- *Be Safe! Health and Safety in School Science and Technology for Teachers of 3- to 12-year-olds* (4ydd argraffiad, 2011).
- *Be Safe! (Argraffiad Cymraeg, Gofal piau hi! – ar gael mewn ffurf ddigidol yn unig)*

Mae deunyddiau ar gyfer hyfforddi mewn swydd yn cynnwys:

- *Be Safe! INSET Pack for Primary Schools*

Mae gan y wefan lawer o adnoddau diogelwch ychwanegol ac mae rhai ohonynt ar gael i'r cyhoedd am ddim.

Mae'r Gymdeithas yn cael ei hymgyngori'n gyson ynglŷn â materion iechyd a diogelwch gan yr Adran dros Addysg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gan gyhoeddwr a gwneuthurwr, yn ogystal ag unigolion a sefydliadau. Mae'n cydweithio yn agos gyda sefydliadau cyflogwr, megis CLEAPSS a SSERC.

**Cyhoeddiadau:** [booksales@ase.org.uk](mailto:booksales@ase.org.uk)

**Ymholiadau Diogelwch:** [johnlawrence@ase.org.uk](mailto:johnlawrence@ase.org.uk)

**Aelodaeth:** [membership@ase.org.uk](mailto:membership@ase.org.uk)

**Cynadleddau:** [conferences@ase.org.uk](mailto:conferences@ase.org.uk)

**Cyffredinol:** [info@ase.org.uk](mailto:info@ase.org.uk)

**Am fanylion pellach, cysylltwch:**

John Lawrence, Deputy Chief Executive

The Association for Science Education

College Lane, Hatfield, Herts AL10 9AA

*Ffôn:* 01707 283000 *Ffacs:* 01707 266532

[johnlawrence@ase.org.uk](mailto:johnlawrence@ase.org.uk); [www.ase.org.uk](http://www.ase.org.uk)

**Ffynonellau eraill o gyngor ynghylch Iechyd a Diogelwch**

*A Guide to the Law for School Governors*, DfES, 2006

*Health & Safety: Responsibilities & Powers*, DfES, 2001

*Health & Safety Guidance for Governors and Members of School Boards*, Education Service Advisory Committee, HSE Books, 1998



## **CLEAPSS**

Mae CLEAPSS yn cynnig cyngor i gyflogwyr ar bob agwedd ar wyddoniaeth ymarferol, yn enwedig ynghylch iechyd a diogelwch a darparu cyfarpar. Mae'n gonsortiw m o awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i ddarparu addysg. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau i gyd yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'u hynnysoedd yn tanysgrifio yn ogystal â'r rhan fwyaf o ysgolion sefydledig, ysgolion annibynnol a gwirfoddol dan gymorth, academiâu a cholegau ôl-16.

The Gardiner Building, Brunel Science Park

Kingston Lane

Uxbridge UB8 3PQ

*Ffôn:* 01895 251496

*Ffacs:* 01895 814372

*E-bost:* [science@cleapss.org.uk](mailto:science@cleapss.org.uk)

*Gwefan:* [www.cleapss.org.uk](http://www.cleapss.org.uk)

## **Canolfan Ymchwil Gyfarpar i Ysgolion yr Alban (SSERC)**

Mae gan SSERC swyddogaeth debyg i CLEAPSS ar gyfer sefydliadau yn yr Alban.

2 Pitreavie Court, Pitreavie Business Park

Dunfermline KY11 8UB

*Ffôn:* 01383 626070

*Ffacs:* 01383 842793

*E-bost:* [sts@sserc.org.uk](mailto:sts@sserc.org.uk)

*Gwefan:* [www.sserc.org.uk](http://www.sserc.org.uk).



Mae CLEAPSS a SSERC fel ei gilydd yn cynnig hyfforddi mewn swydd ar gyfer athrawon a thechnegwyr, yn seiliedig yn rhannol ar ddeunyddiau a gafodd eu datblygu yn wreiddiol gan ASE, gan gynnwys:

- *The Management of Safety for Heads of Science*
- *Health & Safety for School Laboratory Technicians*